

TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|----------------|
| DYDDIAD Y PENDERFYNIAD | 3 Ebrill 2019 |
| DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD | 4 Ebrill 2019 |
| DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 11 Ebrill 2019 |

ENW A THEITL YR AELOD CABINET

Y Cyngorydd Cemlyn Williams, Aelod Cabinet Addysg

PWNC:

Gweithredu'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Dyffryn Ardudwy o 4-11 i 3-11 fel y gellir derbyn plant i ddsbarth meithrin yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed, gan weithredu'r newid ar 1 Medi 2019.

PENDERFYNIAD –

Cymeradwyo'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Ardudwy o 4-11 i 3-11 fel y gellir derbyn plant i ddsbarth meithrin yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed, gan weithredu'r newid ar 1 Medi 2019.

RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU


Dim

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd
Aelod Lleol

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG

| | |
|-------------------------------------|--|
| Enw a theitl yr Aelod Cabinet : | Y Cyngorydd Cemlyn Williams, Aelod Cabinet Addysg |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Owen Owens Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad : | 3 Ebrill 2019 |
| Llofnod yr Aelod Cabinet: |  |

1. Pwnc :

Gweithredu'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Dyffryn Ardudwy o 4-11 i 3-11 fel y gellir derbyn plant i ddsbarth meithrin yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed, gan weithredu'r newid ar 1 Medi 2019.

2. Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :

Cymeradwyo'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Dyffryn Ardudwy o 4-11 i 3-11 fel y gellir derbyn plant i ddsbarth meithrin yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed, gan weithredu'r newid ar 1 Medi 2019.

3. Rheswm dros yr angen am y penderfyniad :

Yn dilyn cynnal cyfnod gwrthwynebu ar y cynnig uchod mae angen i'r Awdurdod benderfynu os yw am fwrw 'mlaen i weithredu'r cynnig.

4. Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y penderfyniad

4.1 Mae bron pob ysgol gynradd yng Ngwynedd yn derbyn plant i ddsbarth meithrin ym mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed. Ar hyn o bryd mae ystod oedran Ysgol Dyffryn Ardudwy yn 4-11. Cyflwynodd Corff Llywodraethol Ysgol Dyffryn Ardudwy gais i Adran Addysg Gyngor Gwynedd i gael newid yr ystod oedran i 3-11 fel eu bod hwythau

hefyd yn gallu derbyn plant yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed. Yn dilyn rhoi ystyriaeth i'r cais cytunodd yr Adran Addysg i gynnal trefn statudol ar y cynnig i newid ystod oedran Ysgol Dyffryn Ardudwy o 4-11 i 3-11.

4.2 Cyhoeddwyd taflen penderfyniad ar 3 Awst 2018, yn datgan penderfyniad Aelod Cabinet Addysg Cyngor Gwynedd i ymgymryd a phroses ymgynghori statudol ar y cynnig i newid ystod oedran Ysgol Dyffryn Ardudwy o 4-11 i 3-11 o Fedi 2019 ymlaen.

4.3 Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013, cyhoeddodd Cyngor Gwynedd ddogfen ymgynghori a chynnal ymgynghoriad statudol gyda holl ymgynghorai perthnasol rhwng 17 Medi – 29 Hydref 2018.

Yn ogystal â'r ddogfen ymgynghori cyhoeddwyd pecyn gwybodaeth cefndirol oedd yn cynnwys asesiadau effaith y cynnig ar yr iaith Gymraeg, y gymuned a chydardoldeb. Mae'r holl ddogfennau i'w gweld ar www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg

4.4 Yn dilyn cynnal yr ymgynghoriad ac yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013, lluniwyd adroddiad arno gan roi'r adroddiad ar wefan y Cyngor ar 30 Tachwedd 2018 gan rannu linc (www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg) a dosbarthu copiâu caled gyda buddiolwyr perthnasol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys ymateb y Cyngor i'r holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

4.5 Yn dilyn rhoi ystyriaeth i'r adroddiad ymgynghori cyhoeddwyd taflen penderfyniad ar 8 Ionawr 2019, yn datgan penderfyniad Aelod Cabinet Addysg Cyngor Gwynedd i:

- i. Gymeradwyo'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Dyffryn Ardudwy o 4-11 i 3-11 fel y gellir derbyn plant i ddsbarth meithrin yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed, gan weithredu'r newid ar 1af Medi 2019.
- ii. Gymeradwyo cyhoeddi rhybudd statudol ar y cynnig yn (i) uchod yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac arweiniad Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013.

Ymgymryd â phroses gwrthwynebu ar y cynnig i newid ystod oedran Ysgol Dyffryn Ardudwy o 4-11 i 3-11 o Fedi 2019 ymlaen. Golygai hyn y bydd yr ysgol yn gallu derbyn plant i ddsbarth meithrin yn mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed.

4.6 Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013, cyhoeddodd Cyngor Gwynedd rhybudd statudol a'i arddangos ar giât Ysgol Dyffryn Ardudwy a dosbarthwyd copi caled i holl staff, rhieni ac aelodau Corff Llywodraethol Ysgol Dyffryn Ardudwy.

Dosbarthwyd linc i'r rhybudd statudol ar wefan y Cyngor (www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg) i'r holl ymgynghorai perthnasol eraill yn unol â chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013.

Cyhoeddwyd y rhybudd statudol ar 16 Ionawr 2019 gan ganiatáu 28 diwrnod ar gyfer unrhyw un i wrthwynebu'r cynnig.

Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig.

5. Y cam nesaf

Yn ddibynnol ar benderfyniad i gymeradwyo'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Dyffryn Ardudwy o 4-11 i 3-11 fel y gellir derbyn plant i ddosbarth meithrin yn y mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed, gweithredir y newid ar 1 Medi 2019.

6. Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau:

Dim

7. Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad:

Prif Swyddog Cyllid

Fel mae'r awdur wedi nodi yn rhan 4.1 o'r adroddiad, mae bron pob ysgol gynradd yng Ngwynedd yn derbyn plant i ddosbarth meithrin ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed. Ni fydd gweithredu'r penderfyniad yma'n golygu ymhlygiad ariannol 'net' i'r Cyngor, gan fydd y cynnydd yn y gyllideb i'w ddyrannu i'r ysgolion cynradd (cyfwerth â cost y plant hynny fydd yn mynychu'r ysgol) yn cael ei ariannu trwy gwtogiad cymesur yn y gyllideb sy'n ariannu 'cylchoedd meithrin nas gynhelir'.

Swyddog Monitro

Rwy'n dal sylw at ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu gan nodi na dderbyniwyd gwrthwynebiadau i'r cynnig. Mae'r argymhelliad yn yr adroddiad yn briodol.

Aelod Lleol

Dwi'n cefnogi'r argymhelliad.